**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Gweler Atodiad A

20 Mawrth 2025

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo**

Annwyl gyfeillion,

Mae'n bosibl eich bod yn gwybod bod Pwyllgor Busnes y Senedd wedi cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Diogelwch y Ffin, Lloches a Mewnfudo at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Felly, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech rannu eich barn, a hynny er mwyn cefnogi ein gwaith craffu ar y memorandwm hwn. Yn benodol, byddem yn croesawu eich barn ar y canlynol:

- y Bil yn gyffredinol;
- y darpariaethau sy'n weddill yn Neddf Mudo Anghyfreithlon 2023, gan gynnwys unrhyw bryderon sydd gennych am y trefniadau presennol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain;
- a yw'r Bil yn gydnaws â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gynnwys pa effaith y byddai'n ei chael ar y dull 'plentyn yn gyntaf, ymfudwr yn ail' sy'n sail i'r cymorth a roddir i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru; a
- chymal 51, sy'n darparu awdurdod statudol ôl-weithredol ar gyfer ffioedd a godir mewn cysylltiad â'r tri gwasanaeth a ganlyn a ddarperir gan gyflenwr trydydd parti ar ran y Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg (DfE): Gwasanaeth Fisâu a Chenedligrwydd y Swyddfa Gartref; y Gwasanaeth Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth y DU (Gwasanaeth ENIC y DU); a'r Gwasanaeth Cydnabod Cymwysterau Blynyddoedd Cynnar o'r tu allan i'r DU.

Os ydych yn dymuno mynegi barn, gofynnwn i chi wneud hynny erbyn dydd Gwener 28 Mawrth fan bellaf. Ymddiheuriadau am yr amserlen gyfyngedig iawn.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Derbynwyr

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Barnardo's

Sefydliad Bevan

Y Groes Goch Brydeinig

Y Comisiynydd Plant

Plant yng Nghymru

ColegauCymru

Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Prifysgolion Cymru

Uned Mewnfudo Strategol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Ffoaduriaid Cymru